# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 6ed o Ebrill 2023 yn brydlon am 7:30 y.h. drwy Zoom yn unig (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

1. **Yn bresennol**: Y Cynghorwyr Angela Williams (Cadeirydd), Margaret Griffith, Dylan Thomas, Rhys Tudur, Tegid Jones, Sian Angharad Parry, Aled Lloyd Evans, Darren Morley a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau**. Cynghorwyr Aled Davies, Miriam Williams, Delyth Parry, Anwen Jones, Gareth O.Davies a Sion Aled Jones.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion** cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 6ed o Fawrth 2023.

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS** Mawrth 2023 (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei gweld o flaen y cyfarfod a'i llofnodi).

4. **Datgan buddiant personol** – neb.

5**. Ward Llangybi** – angen cyfethol Cynghorydd newydd. Roedd y rhybudd wedi cael ei arddangos ar hysbysfyrddau Llangybi, Pencaenewydd a'r wefan, a'r dyddiad cau yn 31.03.2023. Y Clerc wedi cael ei hysbysu gan Mr Huw Elfed Roberts, Swyddog Gwasanaethau Etholiadol, nad oes cais am etholiad wedi ei dderbyn, felly gellir symud ymlaen i gyfethol aelod newydd. Y Clerc wedi derbyn Hysbysiad o Gyfethol, er mwyn ei osod ar y wefan a'r hysbysfyrddau, er mwyn gwadd aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb. Bydd y dyddiad cau yn dangos 20.04.2023, a ceir trafod yr ymateb fis Mai. **Derbyn.**

6. **Cais cynllunio**

**Cais rhif C23/0166/41/YA : Cabin Wood, Llanystumdwy** - Datblygiad arfaethedig o fynediad, ardaloedd gweithio, storio a lloches, addas ar gyfer cynnal a chadw'r coedtir, prosesu deunydd o'r coetir a chreu cynnyrch ynghyd a storio offer a chyfarpar. **Gwrthwynebu, oherwydd ei fod yn ol-gais ar ol agor mynedfa heb ganiatad a bod angen cydymffurffio hefo rheolau. Mae'r fynedfa yn mynd i lon beryglus gyda coed yn rhwystro gwelededd.**

**7. Pwyntiau gwefru** -llythyr gan Rheolwr Gwasanaeth Parcio a Gwaith Stryd, Cyngor Gwynedd, yn dweud fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i gryfhau'r rhwydwaith a chynyddu nifer o bwyntiau gwefru drwy'r wlad. Mae'n bosib bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfraniad ariannol (hyd at 60% o'r costau) er mwyn cynyddu'r pwyntiau gwefru.
Os oes gan y Cyngor Cymuned gyfrifoldeb dros lecynau tir addas ar gyfer gosod pwyntiau gwefru, byddent yn ddiolchgar pe byddem yn ei hysbysu. Mae Cyngor Gwynedd eisioes wedi derbyn grant i osod pwyntiau gwefru mewn meysydd parcio ledled y Sir yn barod, ac yn brysur yn gwneud hynny. **Nid yw Cyngor Cymuned Llanystumdwy yn gyfrifol am lecynau tir fel hyn, ond cynnig y lleoedd isod:-**

- **Mae maes parcio yng nghanol pentref Llanystumdwy-ddim yn siwr os mai Cyngor Gwynedd neu ADRA sydd yn gyfrifol amdano, ond mae'n le sylweddol fawr, ac o bosib mae digon o le i osod pwyntiau gwefru yno.**

- **<u>Yn ymyl Tafarn Madryn, yng nghanol pentref Chwilog efallai, ond nid oes llawer o le i barcio yno.</u>**
- **<u>Ystyried meysydd parcio ysgolion lleol, fel Llangybi, Chwilog neu Llanystumdwy, i'w ddefnyddio gyda'r nos/penwythnos neu adeg gwyliau.</u>**

8. **<u>Cynnig i Newid Rheolau Tai Teg – derbyniwyd ebost gan Ms Jina Gwyrfai, Cynghorydd Ward Yr Eifl</u>**

Dywedodd fod Cyngor Cymuned Pistyll wedi trafod y cynnig uchod oherwydd ei bod yn ymwybodol o drafferthion caiff pobl ifanc yn lleol i gael caniatad cynllunio i adeiladu ac aros yn eu cynefin. Penderfynwyd cysylltu hefo pob Cyngor arall yn Nwyfor, gan ei bod yn credu bod sawl un yn ymwybodol o drafferthion cyffelyb yn ei ardaloedd. Mae'n gofyn i bawb drafod y cynnig yn y cyfarfod ac anfon ebost ati i gefnogi'r cynnig os mai dyna yw'r penderfyniad. Y bwriad yw ymgyrchu i newid y drefn fel a ganlyn:-

*"Ar hyn o bryd mae rheolau Tai Teg yn lladd cymunedau gwledig drwy fod yn rhy gaeth, gan atal pobl leol rhag adeiladu yn eu bro ac yn enwedig adeiladu ar dir sydd ym mherchnogaeth eu teulu.*

*Galwn ar 'Tai Teg' a Chyngor Gwynedd i:*
*(i) Ystwytho rheolau caeth Tai Teg i fod er lles pobl leol a llesiant cymunedau gwledig.*
*(ii) Newid eu rheolau fel eu bod yn ymdebygu i reolau'r cynllun arloesol 'Hunanadeiladu Cymru' ac yn ystyried ceisiadau adeiladu tai fforddiadwy gan ymgeiswyr sydd ag eiddo yn eu perchnogaeth.'*

**<u>Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr ati yn cefnogi ei cynnig i newid rheolau Tai Teg oherwydd ei fod yn rhy gaeth.</u>** Mae anawsterau mawr yn bodoli wrth gael caniatad i adeiladu o fewn ffiniau pentrefi, ac o geisio cael hawl cynllunio ar dir sydd ym mherchnogaeth eu teulu.

9. **<u>Cyfarfod Polisiau</u>** – 21.03.2023 drwy zoom – Cynghorydd Margaret Griffith, Rhys Tudur, Angela Williams a'r Clerc. Mae Polisi Costau a threuliau aelodau newydd wedi cael ei greu ac wedi ei fabwysiadu, ac fe wnaeth y Clerc yn anfon copi at bawb cyn y cyfarfod.
Hefyd derbyniwyd yr argymhelliad i newid y Polisi Iaith oherwydd yr heriau sydd yn gwynebu ambell i gyngor yn ddiweddar. Mae'r Cynghorydd Rhys Tudur wedi creu polisi iaith newydd, ac fe gytunwyd i'w fabwysiadu ar y noson. Bydd copi ohonynt yn cael ei rhoi ar y wefan.
Argymhellwyd fod pob polisi arall yn cael ei diweddaru bob 5 mlynedd.

**<u>Materion yn y gymuned</u>**.
10. **<u>Llanystumdwy</u>**
**<u>a) Arwydd anaddas i gerbydau nwyddau trwm</u>** wedi cael ei archebu gan Uned Gwaith Priffyrdd i rybuddio cerbydau rhag mynd dros Bont Rhydycroesau.

b) **<u>Tyddyn Morthwyl</u>** yn uwch i fyny ar y dde wrth fynd am Gricieth mae adwy wedi cael ei agor, ac mae coeden yn edrych fel petai am syrthio i'r lon yno. Angen holi Cyngor Gwynedd.

11. **<u>Rhoslan/Ynys</u>**

12. **<u>Chwilog</u>**
a) **<u>Cais i gael arwyddion yn nodi'r Lôn Goed cyn yr Eisteddfod Genedlaethol a thraeth Afonwen</u>**. Clerc wedi derbyn ateb gan Alun Fon Williams, Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau, Cyngor Gwynedd yn dweud bydd y Gwasanaeth Traffig yn cysylltu â'r Clerc i drafod a phenderfynu ar gynllun a darparu pris am wneud y gwaith.

b) **Parcio ger Golchdy Afonwen** – ebost wedi cael ei anfon atynt yn gofyn wrthynt sicrhau nad oes neb yn pario ar y lon fawr o flaen y safle, oherwydd fod cerbydau yn cael ei gorfodi i basio ar yr ochr arall i'r lon, ar y tro, sydd yn beryglus iawn.
Mae Mr Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig wedi egluro nad yw'r ffordd yma yn cyrraedd yr hicyn i ddod a'r cyflymder i lawr i 30 milltir yr awr yn unol â'r canllawiau perthnasol. Dywedodd fod Canllawiau Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru 2009 yn llywodraethu'r ffordd y mae pob Awdurdod Lleol yn gosod terfynau cyflymder o fewn ei hardaloedd.
Cadarnhaodd hefyd fod y canllawiau yma yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, a byddant yn cael ei cyhoeddi yn 2023. Dywedodd hefyd fod yr Uned Draffig o dan bwysau mawr i gyflawni'r prosiect 20 milltir yr awr newydd, felly byddai oedi sylweddol wrth asesu terfynau cyflymder ar unrhyw ffyrdd yng Ngwynedd.

c). **Lamp Bro Sion Wyn, Chwilog** – wedi cael ei drwsio/adnewyddu.

ch) **Sbwriel – Hwb Tím Tacluso 'ardal Ni'** – Clerc wedi cysylltu i son am y sbwriel sydd ar draws y lon i'r Hufenfa tuag at Chwilog. Maent am drefnu i'w dacluso.

13. **Pencaenewydd/Sardis**
14. **Llangybi**
**Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi**,- derbyniwyd ebost yn cynnig gwneud rhywbeth i helpu yn yr ardal leol, fel peintio safle bws Llangybi flwyddyn diwethaf. Roeddent yn dweud fod y Cyngor yn hael iawn yn rhoi rhodd ariannol i'w helpu nhw bob blwyddyn, ac eisiau cynnig unrhyw help i'r gymuned. Penderfynwyd trafod y cynnig yn y cyfarfod nesaf.

15. **Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2023 ymlaen**. – mae hysbyseb wedi cael ei roi ar y wefan, Y Ffynnon a'r hysbysfyrddau i gael prisiau, hefo dyddiad cau 30.04.2023, er mwyn ei trafod yn y cyfarfod mis Mai.

16. **Cof Eifionydd** – cynhaliwyd cyfarfod rhwng cynghorwyr y cyngor cymuned a Mr Robin Llwyd ab Owen, Rheolwr Wicimedia yng Nhymru drwy zoom ar 06.03.2023. Y Cynghorydd Rhys Tudur am gychwyn casglu gwybodaeth fis Mai, a'r Cynghorydd Dylan Thomas wedi cynnig ei gynorthwyo.

**Materion Ariannol**

17.**Adroddiad Ariannol** gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol rhwng 01.04.2022 hyd at 31.03.2023, a'r rhagolwg a wnaed tan 31.03.2023. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. (Trefnodd y Clerc i ddangos y biliau i gyd i'r Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi o flaen y cyfarfod, cyn ei talu). Bydd y Clerc yn creu dogfen rhagolwg newydd ar gyfer y flwyddyn tan 31.03.2024 erbyn y cyfarfod nesaf.

18. **Archwilio allanol 2021-2022** – derbyniwyd ymateb gan Archwilio Cymru, maent wedi gofyn ambell i gwestiwn am wahanol bethau, ac mae'r Clerc wedi ei ateb, ac yn disgwyl ymateb ganddynt.

19. **Archwilio allanol 2022-2023** – derbyn gwybodaeth gan Archwilio Cymru, fod ganddynt ol-groniad gwaith ac felly ddim mewn sefyllfa i gyhoeddi'r hysbysiadau archwilio ar gyfer archwiliadau 2022-23. O ystyried y materion y maent wedi cael gyda rhoi adnoddau yn ystod y

ddwy flynedd diwethaf ac ôl-groniad parhaus o archwiliadau hŷn maent dal angen ei clirio, maent wedi penderfynu peidio cyhoeddi'r hysbysiadau nes ei bod wedi cadarnhau'r dyddiad y bydd ei tîm archwilio ar waith. Mae rhaglen archwilio cyngor cymuned a thref yn cael ei osod yn ei rhaglen waith ehangach. Byddant yn ysgrifennu atom eto cyn gynted ag y bydd yr amseru'n cael ei gadarnhau.

Yn y cyfamser, maent yn argymell ein bod yn paratoi ac yn cymeradwyo'r ffurflenni blynyddol cyn gynted a phosib, a byddant yn rhoi'r dyddiadau ar gyfer arfer hawliau etholwyr o dan Ddeddf 2004 gyda'r hysbysiad archwilio. **Derbyn**.

20. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br><br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Criccieth Cleaning Ltd (3337) | Llochesi bws Mawrth | **182.50** | **36.50** | **219.00** | **219.00** |
| Archwilio Cymru (ARINV/008537) | Ffioedd archwilio allannol – 2020-2021 | **200.00** | | **200.00** | **200.00** |
| Cyngor Gwynedd (007950B0077798W) | Gwagio bin baw ci Chwilog<br>41 casgliad Mehefin 2022-Mawrth 2023 | **151.70** | **30.34** | **182.04** | **182.04** |
| Delwedd (007) | Cynhaliaeth gwefan | **445.09** | **89.02** | **534.11** | **534.11** |

21. Cyflog mis Mawrth 2023 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Mawrth 2023<br>35 awr y mis x £12.50 = £437.50 | 437.50<br>Llai treth £87.60=<br>**£349.90** | **349.90** | **349.90** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Mawrth 2023 | £438.00 x 20% =<br>**£87.60** | **87.60** | **87.60** |
| Costau Clerc mis Mawrth 2023 | **£16.00** | **16.00** | **16.00** |

**Materion hwyr – gyda chaniatad y Cadeirydd.**

22. **Ceisiadau cynllunio**
a) Cais rhif C23/0275/41/LL - Shrimala Trust, Ynys Graianog, Ynys, Cricieth – adeiladu 2 gwt ar gyfer myfyrdod/encilio tawel - **Cefnogi.**

b) Cais rhif C23/0279/41/DA – Hufenfa De Arfon Cyf., Y Ffor, Pwllheli -diwygiad ansylweddol i'r cynlluniau gymeradwywyd trwy gais cynllunio C21/0982/41/LL er mwyn addasu dyluniad a gosodiad yr adeiladau, yn cynnwys 'louvres, ychwanegu ac addasu lleoliad agoriadau a drysau. **Cefnogi**.

23.
Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf ar y nos Iau **04.05.2023** am 7:00 yn Neuadd Llanystumdwy a drwy Zoom.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**